



Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,
Ystafell 5,
Y Cambria,
Aberystwyth,
SY23 2AZ

Y 9fed o Ebrill, 2015

Annwyl Rosie Plummer,

Rydym wedi'n synnu a'n siomi bod Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi codi arwydd uniaith Saesneg ar ochr traffordd yr M4.

Y 'cyfiawnhad' rydych wedi ei roi dros godi arwydd uniaith Saesneg yw mai'r farchnad dwristaidd o'r tu allan i Gymru oedd y targed, sy'n anwybyddu'r ffaith bod marchnad dwristaidd fawr yng Nghymru, heb sôn am yr egwyddor sydd wedi hen sefydlu bod arwyddion yng Nghymru i fod yn ddwyieithog. Mae'r arwydd hefyd yn torri'r Cynllun Iaith sydd ar wefan y Gerddi. Mae pwynt 5.2 yn nodi:

"Wrth adnewyddu arwyddion mae'r Ardd wedi ymrwymo i ddarparu arwyddion yn gwbl ddwyieithog a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion mewnol ac allanol yn ein swyddfeydd/canolfannau a lle'n briodol, arwyddion gan gontractwyr eraill. Bydd yr arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyda'r Saesneg yn gyfartal."

Mae'n debyg hefyd i chi ddanfôn llythyr at nifer o fusnesau lleol, a bod hwnnw wedi mynd yn uniaith Saesneg. Mae hyn hefyd yn groes i'ch Cynllun Iaith:

"4.1.5. Lle nad yw dewis unigol yn hysbys, er enghraifft wrth anfon llythyrau safonol, byddwn yn cyfathrebu'n ysgrifenedig â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, felly'n parchu ac yn gweithredu eu defnydd o Gymraeg."

Rydyn ni'n ymwybodol hefyd i chi dorri dau gymal arall yn eich cynllun iaith drwy beidio ateb llythyr Cymraeg yn Gymraeg; a thrwy beidio cynnig bod rhywun yn gallu siarad ar y ffôn gyda chi fel sefydliad yn Gymraeg.

Rydym wedi gweld bod y botwm 'Cymraeg' ar eich gwefan bron yn amhosibl ei weld, a hyd yn oed wedyn bod rhannau o'r wefan yn uniaith Saesneg hefyd – er enghraifft, y rhestr ddigwyddiadau a newyddion. Gan eich bod yn cynnal digwyddiadau drwy'r flwyddyn, pobl leol fyddai fwyaf tebygol o'u mynychu.

Yn dilyn pryderon am ddarpariaeth Gymraeg y Gerddi, fe wnaethon ni gynnal cyfarfodydd gyda chi rai blyneddoddi yn ôl wnaeth arwain at godi arwyddion dwyieithog yn y gerddi, a bu trafodaeth am gynnig gwersi Cymraeg i staff, ac annog staff i wneud defnydd o'r Gymraeg. Mae'n ymddangos er hynny nad yw meddylfryd y gerddi wedi newid rhyw lawer.

Fel sefydliad cenedlaethol sy'n derbyn arian cyhoeddus a chefnogaeth sylweddol gan yr awdurdod lleol a llywodraeth ganolog mae'n sefyll i reswm y dylai fod gwasanaeth Cymraeg llawn ar gael. Pan fo'ch ymateb fel sefydliad i gwynion gan y cyhoedd ynghylch diffygion yn ymylu ar haerllugrwydd, mae'n codi cwestiynau mawr am agwedd y sefydliad cyfan at y Gymraeg, ac at broffesiynoldeb rhai o'ch staff. Rydym felly yn ysgrifennu at y Llywodraeth ac at y Cyngor Sir heddiw gan alw arnynt i atal eich cyllid fel sefydliad tan eich bod yn dangos awydd i wella ar eich agwedd negyddol a'ch darpariaeth druenus bresennol.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb buan.

Yn Gywir

Manon Elin,
Llefarydd Hawliau Iaith Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

